

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Grŵp Cynghori Technegol

## Defnyddio profion i ganfod gwrthgyrff i antigenau SARS-CoV-2



15 Gorffennaf 2020





© Hawlfraint y Goron 2020

# Datganiad Consensws Grŵp Cynghori Technegol COVID-19 Llywodraeth Cymru: Defnyddio profion i ganfod gwrthgyrff i antigenau SARS-CoV-2

## Argymhellion

- Ar hyn o bryd, dylid canolbwyntio wrth ddefnyddio profion i ganfod gwrthgyrff i antigenau SARS-CoV-2 ar serowyliadwriaeth o garfanau targed diffiniedig, a hynny er mwyn deall lefel gronnol yr haint yn y carfanau hyn yn y gorffennol.
- Dylai perchnogion polisi ystyried a diffinio pa ymateb polisi y dylid ei fabwysiadu i wahanol lefelau o haint yn y carfanau hyn.
- Rhaid ystyried defnyddioldeb profion gwrthgyrff yng nghyd-destun ehangach y profion eraill a gynhelir, gan gynnwys y rhaglen ‘Profi Olrhain Diogelu’.
- Gall profi am wrthgyrff helpu i nodi amgylcheddau risg uwch ac felly rhoi mesurau lliniaru risg ar waith yn y lleoliadau hynny. Ymhlith yr enghreifftiau fyddai lleoliadau neu alwedigaethau sy'n gysylltiedig â chyfraddau cyswllt uchel.
- Mae staff ysgol yn un garfan o ffocws uniongyrchol ond dylid ymestyn profion o'r fath i garfanau neu leoliadau eraill sydd â chyfraddau cyswllt uchel lle ystyrir bod gwerth amlwg mewn gwneud hynny. Gallai ffatrïoedd prosesu bwyd oer fod yn flaenoriaeth arall y dylid mynd i’r afael â hi ar unwaith.
- Ar hyn o bryd, ni ddylid defnyddio canlyniadau profion gwrthgyrff fel sail ar gyfer dod i gasgliadau ynghylch imiwnedd unigolyn rhag cael ei heintio unwaith yn rhagor neu'r risg y mae'n ei achosi i eraill.
- Ni ddylid ystyried bod cynnal profion yn disodli mewn unrhyw ffordd y broses o gynnal ymyriadau allweddol, fel dilyn mesurau hylendid priodol a chadw pellter cymdeithasol, nac yn lliniaru diffygion yn yr arferion hyn.
- Ceir manteision sylweddol posibl o ran logisteg mewn perthynas â’r fformat profion llif unffordd. Mae GIG Cymru yn gwirio perfformiad prawf llif unffordd masnachol ar hyn o bryd, a dylid ei gefnogi i gwblhau'r gwaith hwn. Os yw'r canlyniad yn gadarnhaol, dylid defnyddio'r prawf hwn i gynyddu dwyster serowyliadwriaeth mewn carfanau a lleoliadau targed.

## Imiwnoleg

- Mae'r ymateb imiwnolegol i heintiad gan feirws SARS-CoV-2 yn gymhleth. Mae'n amrywio rhwng unigolion ac o fewn unigolyn dros amser.
- Dim ond un elfen o’r ymateb imiwnyddol i haint yw’r ymateb gwrthgyrff.
- Dim ond yn rhannol y deellir y berthynas rhwng yr ymateb imiwnyddol hwnnw a'r adferiad o'r haint presennol, a’r amddiffyniad rhag heintiad mynych yn y dyfodol. Mae'r ddau yn bynciau sy’n destun cryn drafod ac ymchwil barhaus.
- Mae hyn yn gwneud y defnydd priodol a dehongliad cywir o brofion gwrthgyrff yn heriol.

## Defnyddio’r profion

- Mae’n hanfodol bod diben profion yn cael ei ddiffinio’n glir a dylid cytuno arno cyn gweithredu unrhyw raglen brofi.
- Dylid hefyd sicrhau eglurder o ran y cam(au) gweithredu a fydd yn cael eu cymryd mewn ymateb i bob un o'r gwahanol ganlyniadau posibl o brofi.
- Ar hyn o bryd, ni ddylid defnyddio canlyniadau profion gwrthgyrff i ddod i gasgliadau ynghylch lefel imiwnedd unigolyn i heintiad mynych gyda SARS-CoV-2, y risg o haint y maent yn ei hachosi i eraill, neu fel sail ar gyfer gweithredu ar lefel unigolion.
- Ar hyn o bryd, dylid parhau i ddefnyddio’r profion RT-PCR ar gyfer canfod feirws fel y prif brawf ‘rheng flaen’ ar gyfer rhoi diagnosis o heintiad gyda feirws SARS-CoV-2. Gallai profion gwrthgyrff fod o ddefnydd fel profion ategol i’r profion RT-PCR ar lefel ddiagnostig unigol.
- Ar hyn o bryd, prif ddefnyddioldeb profion ar gyfer gwrthgyrff yw gwyliadwriaeth wedi’i dargedu o garfanau diffiniedig er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o nifer yr achosion (naill ai ar bwynt neu gyfnod) yn y carfanau hynny. Bydd gwyliadwriaeth o'r fath yn hwyluso dealltwriaeth o lefelau haint hanesyddol yn y carfanau hyn ac o bosibl o gymorth i ddeall eu harwyddocâd o safbwynt deinameg trosglwyddo’r haint. Un garfan o'r fath yw athrawon a chynorthwywyr addysgu.
- Rhaid cynllunio fframiau samplu i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni’r amcan gwyliadwriaeth diffiniedig.
- Mae ceisiadau eraill yn cynnwys profi ar gyfer gwrthgyrff i SARS CoV-2 fel rhan o’r broses gweithgynhyrchu plasma ar gyfer adferiad o COVID-19.

## Data

- Dylai samplu a phrofi fod yn gysylltiedig â chasglu, curadu, rhannu a dadansoddi'r data sydd eu hangen i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ddefnyddioldeb a gwerth y profion hynny.

## Profi rheolaidd

- Fel o’r blaen, mae’n hanfodol bod diben profi rheolaidd yn cael ei ddiffinio'n glir a, lle bo angen, ei gytuno cyn ei weithredu.
- Yn y cyd-destun gwyliadwriaeth, gall profi rheolaidd fod ar ffurf profi dro ar ôl tro yr un unigolion gyda charfan dros amser neu brofi gwahanol unigolion o fewn yr un garfan dros amser. Gall fod gan bob un ddefnyddioldeb yng nghyd-destun diben penodol ac nid yw'r ddau ddull yn annibynnol ar ei gilydd.
- Rhaid cynllunio fframiau samplu i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r amcan gwyliadwriaeth diffiniedig.

## Materion i'w hystyried ymhellach

- Gall profion gwrthgyrff dargedu gwrthgyrff naill ai i barth niwcleocapsid neu barth rhwymo at dderbynyddion (RBD; ‘protein sbigyn') y feirws SARS-CoV-2. Mae angen gwneud rhagor o waith i werthuso a deall rhinweddau cymharol pob un o'r opsiynau hyn.
- Gellir cynnal profion gwrthgyrff mewn labordy (dadansoddiad o serwm o gasgliad gwythiennol) neu brofion ‘pwynt gofal' (pwynt gofal; gan ddefnyddio prawf llif unffordd). Mae GIG Cymru yn gwirio cywirdeb profion llif unffordd dethol ar hyn o bryd. Mae angen caniatáu i'r gwerthusiad hwn ddirwyn i ben ond, os yw'n gadarnhaol ac os bydd argymhellion perthnasol i’w gefnogi, bydd prawf pwynt gofal ar gyfer gwrthgyrff yn cael ei ddarparu ar gael ei ddefnyddio. Byddai prawf o'r fath yn defnyddio samplau gwaed capilarïau (e.e. a gesglir drwy bigo bys yr unigolyn) a byddai nifer o fanteision cysylltiedig o safbwynt logistaidd.

Sylwer: Mae cynnal profion i werthuso a gwirio'r canlyniadau sy'n deillio o brofion gwrthgyrff cyn bod y profion hyn yn cael eu defnyddio’n rheolaidd ar y rheng flaen yn elfen hanfodol o ddatblygu gwasanaeth yn barhaus fel rhan o ymateb iechyd y cyhoedd. Mae gwaith o'r fath yn digwydd o dan oruchwyliaeth y pwyllgorau moeseg perthnasol.